

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Cofnodion EOC(3)-13-08

Dyddiad: Dydd Iau 16 Hydref 2008

Amser: 9.30 - 10.45

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Ann Jones (Cadeirydd), Dyffryn Clwyd
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Nick Ramsay, Mynwy
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru

Swyddogion yn bresennol

Tom Jackson, Clerc
Rita Phillips, Dirprwy Glerc
Denise Rogers, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Steve Boyce, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Erill yn bresennol

Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Heulwen Blackmore, Pennaeth Cydraddoldebau a Hawliau Dynol
Steve Chamberlain, Pennaeth Cydraddoldebau a Chyflawni Hawliau Dynol

Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i Aelodau'r pwyllgor nad oedd y Prif Weinidog yn gallu bod yn brserennol, fel y bwriadwyd. Cynhelir cyfarfod arall yn y dyfodol gyda'r Prif Weinidog er mwyn craffu ar y flaenoriaeth a roddir i gyfle cyfartal yn Llywodraeth Cymru'n Un.

1.3 Nid oedd unrhyw fuddiannau wedi'u datgan.

Eitem 2: Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

Papur: EOC(3)-13-08(p.1)

2.1 Ymatebodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i gwestiynau gan y Pwyllgor.

Cam gweithredu:

Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn amlinellu casgliadau'r Pwyllgor oedd yn deillio o'u gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft.

Eitem 3: Ymchwiliad i Faterion Pobl Hŷn

Papur: EOC(3)-13-08(p.2)

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a'r alwad am dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad i gynnal a chadw'u cartrefi a gwasanaethau addasiadau ar gyfer pobl hŷn.

Camau i'w cymryd:

Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru at y rhestr o ymgynghoreion.

Aelodau'r Pwyllgor i roi gwybod i'r Ysgrifenyddiaeth am unrhyw ymgynghoreion posibl eraill.

Penderfynodd y Pwyllgor gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat yn unol â Rheol Sefydlog 10.37

Y Gwasanaeth Pwyllgorau

Hydref 2008

